

**PRESENNOL:**

**Cynghorwyr:** Math Williams, Peter Garlick, Mirian Llwyd Owen, Erddyn Davies

**Cadeirio:** Geraint Strello

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

**1. YMDDIHEURIADAU**

Emyr Williams, Dafydd Iwan, Gwyneth Thomas, Wynn Roberts

**2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL**

Dim

**3. CADARNHAU COFNODION MIS MAI 2019**

**Cynnig:** Math Williams

**Eilio:** Mirain Llwyd Owen

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**4.1 Clwb Ieuenctid Bontnewydd**

Cafwyd cyfarfod efo swyddog o Gyngor Gywnedd a'r Cynghorydd Diwlyn Morgan, yr Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc. Eglurwyd fod Cyngor Gywnedd yn rhedeg Clwb Ieuenctid sy'n amrwyio o ran ei leoliad, rhwng Caernarfon a Dolgellau, gyda rhai sesiynau yn cael eu cynnal ym Montnewydd.

Mae gweithgareddau amrwyiol yn cael eu trefnu ar gyfer y Clwb, ac fe benderfynwyd asesu a mynychu rhai sesiynau o'r Clwb cyn dod i benderfyniad o ran sut y gallai Cyngor Cymuned Y Bontnewydd gyfrannu at weithgareddau ieuenctid ym Montnewydd.

Y teimlad oedd y gallai fod yn fwy synhwyrol gwneud y gorau o'r adnoddau oedd yn cael eu darparu gan Gyngor Gwynedd, a thalu am sesiynau neu weithgareddau ychwanegol yn hytrach nag i'r cyngor cymuned gynnal Clwb Ieuenctid.

#### **4.2 Cerrig Afon Gwyrfaï a Llifogydd Bontnewydd**

#### **4.3 Cyfethol Aelod**

Fe gyfetholwyd Huw Orwig, Llanfaglan, ar gyfer un o'r seddi gwag. Search hynny, mae'r sedd arall yn parhau'n wag, ac felly parheir i hysbysebu a cheisio aelod i'w gyfethol ar gyfer y sedd honno.

#### **4.4 Datblygiad Cefnwerthyd**

Mae datblygiad Cefnwerthyd wedi ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd. Fel rhan o'r cais, cytunodd cwmni Watkin Jones i leoli offer chwarae pwrpasol ar y darn tir ger mynedfa'r datblygiad.

#### **4.5 Goryrru Llanfaglan**

Mae'r Heddlu wedi cytuno i leoli'r fan Gan Bwyll yn amlach yn Llanfaglan.

Gofynnwyd i Gyngor Gwynedd a fyddai'n bosibl gosod cyfyngiad cyflymder o 30 mya dros dro o gyffordd Lon Pant efo'r A487 hyd at Saron, o gofio fod mwy o gerbydau yn defnyddio'r ffordd yma dros gyfnod adeiladu'r ffordd osgoi.

Nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon cytuno i'r cyfyngiad cyflymder, ond nodant eu bod yn monitro sefyllfa'r traffig ar Lôn Pant gyda pheiriannau mesur llif a chyflymder traffig, er mwyn gweld os yw gwaith adeiladu'r ffordd osgoi yn cael effaith negyddol ar y pentrefi cyfagos, yn enwedig pentrefi Saron a Llanfaglan.

Mae Cyngor Gwynedd hefyd mewn trafodaethau efo'r contractwyr a Llywodraeth Cymru i gytuno ar fesuriadau ychwanegol er mwyn annog gyrrwyr i beidio â defnyddio'r ffordd gefn. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i osod mesuriadau tawelu traffig ychwanegol os oes angen.

#### **4.6 Ffordd Osgoi Bontnewydd**

Mae'r gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen yn unol a'r amserlen. Bydd nifer o ffyrdd lleol yn cael eu cau'n fuan er mwyn hwyluso gwaith adeiladu'r ffordd

#### **4.7 Rhybudd o Gynnig – Cefnogi Ymngyrch Yes Cymru**

Pledleiswyd yn unfyrdol o blaid Rhybudd i Gynnig oedd yn cefnogi ymngyrch Yes Cymru am annibyniaeth.

### **5. MATERION ARIANNOL**

#### **5.1 Cyflog a Chostau Clerc Mehefin 2019**

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyfanswm Gros** £279.00

**Cyfanswm Net** £232.20

#### **5.2 Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2018/19**

Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2018/19

### **6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

Dim

### **7. GOHEBIAETH**

- Gorchymyn Cau Ffyrrdd Lleol

### **8. MATERION ERAILL**

#### **8.1 Rhybudd o Gynnig – Cefnogi Ymngyrch Yes Cymru**

Pledleiswyd yn unfyrdol o blaid Rhybudd i Gynnig oedd yn cefnogi ymngyrch Yes Cymru am annibyniaeth.

## **8.1 Codi Tâl am Barcio yn Ninas Dinlle**

Cafywd llythyr gan Gyngor Cymuned Llandwrog yn gofyn am gefnogaeth i'w hymdrech i wrthwynebu codi tâl am barcio yn Ninas Dinlle.

Penderfynwyd gofyn am fwy o fanylion am y mateiron canlynol cyn dod i benderyfniad:-

- faint fydd y tâl parcio
- hyd y tymor codi tâl parcio
- ble yn union yn Ninas Dinlle fydd y tâl parcio yn weithredol

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 5 Medi 2019 am 7 yr hwyr yn Y  
Ganolfan, Bontnewydd**